

Llawlyfr Pontio ar gyfer Ymarferwyr Proffesiynol ym Myd Addysg Blynyddoedd Cynnar



uni-play (2023)

Cynnwys

1. Cyflwyniad i bontio
2. Anghenion y plant
3. Rôl yr oedolyn
4. Partneriaethau
5. Ymyriadau
6. Canlyniadau arfaethedig
7. Crynhoi themâu allweddol

CYFLWYNIAD I BONTIO

Pwrpas y llawlyfr yma yw cefnogi ymarferwyr proffesiynol er mwyn iddynt gefnogi plant a theuluoedd drwy gyfnodau pontio yn eu blynyddoedd cynnar. Y nod yw rhoi gwell ddealltwriaeth i ymarferydd proffesiynol blynyddoedd cynnar o bwysigrwydd cyfnodau pontio ym mlynyddoedd cynnar addysg y plentyn ac, yn fwyaf penodol, y cyfnod pontio rhwng meithrin i dderbyn.

Mae cyfnodau pontio yn bwysig i ddatblygiad plentyn oherwydd yr effaith negyddol neu gadarnhaol gall gael amynt. Gall fod yn amser ofidus i blant, rhieni ac ymarferwyr proffesiynol fel ei gilydd (Moir & Johnson, 2021). Mae erthygl ar wefan 'Early Years Coalition' yn atgyfnerthu hyn drwy nodi bod cyfnodau pontio yn cynnwys newidiadau hir dymor, fel newid ysgol a safle, a newidiadau byr dymor megis newid ystafell ddosbarth, newid bwrdd o fewn ystafell ddosbarth, a newidiadau i strwythur dydd er enghraifft cynnwys amseroedd chwarae a cinio penodol a chyson am y tro cyntaf. Er nad yw'r newidiadau yma'n fawr, i blentyn gall deimlo'n llethol tu hwnt a dyna pam bod angen sicrhau bod plant yn teimlo'n gartrefol, a chreu ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol, er mwyn eu helpu i setlo (Early Education on behalf of the Early Years Coalition, 2020). Mae cyfnodau pontio effeithiol a llwyddiannus, yn enwedig am y tro cyntaf o feithrin i derbyn, yn holl bwysig er mwyn sicrhau fframwaith gadarn a chadarnhaol i ddatblygiad plentyn.

Gall gyfnodau pontio negyddol effeithio yn fawr ar blant, er enghraifft os nad yw ymarferwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r gofidiau a'r pryderon sydd gan blant yna mae'r gofidiau yn debygol o gynyddu a'r plentyn yn dioddef o or bryder. Mae Parent yn nodi bod nodd mesur straen seicolegol plant drwy fesur y cynnydd mewn lefelau Cortisol yn eu poer pan maent mewn sefyllfa pontio sydd yn peri gofid iddyn nhw. Mae lefelau cortisol yn cynyddu pan dan straen ac mae wedi profi bod straen yn cynyddu mewn sefyllfa addysg blynyddoedd cynnar drwy brofi bod cynnydd mewn cortisol yn eu poer. Mae hwn yn effeithio'n negyddol ar blentyn, ei allu i gymryd rhan yn effeithiol mewn dosbarth ac yn effeithio ar gyrhaeddiad academiaidd (Parent et al. 2018).

Bydd y llawlyfr yma'n cynnig cyngor ymarferol ar sut i bontio o'r cyfnod derbyn i'r cyfnod meithrin ac yn awgrymu ymyriadau a strategaethau a fydd yn effeithio'n bositif ar brofiadau plant a thrwy hyn yn sicrhau'r profiadau a chanlyniadau gorau. Mae buddion sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus yn ddibendraw: emosiynau positif, balchder, cyffro, hyder ac hapusrwydd, setlo'n gyflym a dysgu a datblygu o'r diwrnod cyntaf gydag ymarferwr proffesiynol sy'n gyfarwydd iddynt (Ephgrave, 2013).

2. ANGHENION Y PLENTYN

Mae pontio ym mlynnyddoedd cynnar yn cyfeirio at blentyn yn dechrau mewn lleoliad blynnyddoedd cynnar rhwng meithrin a derbyn (Devon County Council, 2022). Mae angen cefnogi plant yn ystod y cyfnod pontio. Anghenion y plentyn yw'r prif ffocws, sef:

- cariad
- amodau byw sefydlog
- bwyd maethlon
- awyrgylch dysgu da

Mae Foley a Leverett (2008) yn nodi pa mor bwysig yw i ymarferydd proffesiynol gysylltu â phlant a datblygu perthynas gweithiol da er mwyn ateb anghenion plant. Mae cyfathrebu gyda phlant yn bwysig ac mae plant ifanc yn gallu cyfathrebu lawer yn fwy effeithiol os yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu hymarferydd proffesiynol. Gall blant deimlo'n ofidus iawn mewn cyfnod o bontio ac o newid a hwn, yn ei dro, yn golygu na allant gyfathrebu am eu hanghenion mwyaf sylfaenol, er enghraifft bwyd, diod a mynd i'r ty bach. Mae'n bwysig bod ymarferydd proffesiynol yn synhwyro teimladau plentyn, yn gydymdeimladol, yn adnabod yr arwyddion ac ymateb iddynt. Bydd hwn yn cefnogi plentyn a'i helpu i fagu hyder i fynegu ei feddyliau a gofyn am bethau y mae ei angen. Mae cyfnod pontio yn brofiad newydd i'r plentyn a gwyddom i gyd bod unrhyw brofiad newydd, i blentyn neu oedolyn, yn gallu peri gofid ac wedyn ofn neu swildod a diffyg cyfathrebu.

Mae angen i ymarferydd proffesiynol helpu plentyn drwy adnabod cefndiroedd gwahanol ac anghenion arbennig. Os yn dod o gefndir tlawd neu gyfoethog mae e'r un mor bwysig cwrdd ag anghenion unigol a pheidio gwahaniaethu a thrin plant yn gyfartal.

Yn ol damcaniaeth Froebel (1837), mae 'chwarae' yn rhan hanfodol ym mywyd a datblygiad bob plentyn wrth bontio. Mae'n awgrymu bod plant yn dysgu drwy brofiadau sy'n cael eu datblygu drwy chwarae a hwn, yn ei dro, yn gwella eu lles emosiynol. Fe agorodd Froebel y feithrinfa gyntaf i blant 7 oed ac iau oherwydd roedd o'r farn mai chwarae oedd y brif ddull dysgu ac felly y dull fwyaf effeithiol o ddysgu i blant ifanc yr oed yma (Pound, 2005, p.14). Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Chwarae, yr un cyntaf yn y byd, a seiliwyd ar egwyddorion tebyg sef bod

- gan pob plentyn hawl i chwarae
- chwarae yn bwysig yn natblygiad plant
- buddion mewn chwarae (*Polisi deddfwriaeth Chwarae 2022*).

Mae damcaniaeth Maslow (1943) yn bwysig oherwydd ei fod yn nodi pwysigrwydd anghenion sylfaenol plentyn yn cael eu cyrraedd er mwyn diwallu anghenion mwy cymhleth. Er enghraifft mae plentyn angen ymddiried yn ei gysylltiadau agosaf er mwyn datblygu a gall ymlyniad iach arwain at ddatblygiad iach. I'r gwrthwyneb, gall beidio cael ymlyniad iach ac agos achosi gofid i blentyn wrth bontio. Mae pyramid Maslow (1943) yn ein helpu i ddeall anghenion plentyn a sut i reoli unrhyw ofidiau sydd ganddynt yn y cyfnod hwn ac yn caniatáu i blentyn ddatblygu ymlyniad sicr gyda gweithwyr allweddol. Ar ddechrau'r pyramid mae anghenion 'Seicolegol': sicrhau bod gan blentyn dwr,

bwyd, cyfle am saib, cyfle i fynd i'r ty bach, golau addas ac awyr iach yn bwysig. Yn ail mae 'Diogelwch': sicrhau nad yw plant yn teimlo'n fregus ac o dan fygythiad drwy gyfathrebu prosesau a rheolau effeithiol gyda strwythurau pendant yn y dosbarth a chreu awyrgylch cyfathrebu iach. Nesaf, mae 'Cariad a Theimlad o Berthyn': sef rhoi a derbyn caredigrwydd, mwynhau cyfeillgarwch a chwmïaeth a chael perthnasoedd rhyngbersonol cyson, bod yn barchus at eraill, creu ymdeimlad o dîm, bod yn gynhwysol a gosod plant i eistedd lle cânt cefnogaeth. Mae hyn yn arwain at angen arall sef 'Hunan barch': rhoi adborth cadarnhaol, creu cyfleoedd i blant rhannu adborth positif ac annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Yn olaf, mae teimladau o 'Gyflawniad': sicrhau bod gwireddu potensial yn dod yn flaenoriaeth (Rojas, 2023).



Maslow's hierarchy of needs

Plateresca / Getty Images (2020)

3. RÔL YR OEDOLYN

Mae pontio yn amser heriol i rieni neu ofalwyr wrth adael eu plant yng ngofal gweithwyr allweddol. Mae plentyn yn gadael diogelwch y cartref ac yn profi mwy o ddylanwadau sydd y tu allan i reolaeth y rhiant neu'r gofalwr. Mae Bronfenbrenner (1979) yn nodi bod datblygiad plentyn yn cael ei ddylanwadu arno gan nifer o systemau gwahanol:

- y microsystem (amgylchedd uniongyrchol)
- mesosystem (rhyngweitho rhwng y microsystemau)
- exosystem (ffactorau allanol sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar ddatblygiad plentyn), a

- macrosystem (credoau a gwerthoedd diwyllianol).

Mae pontio yn broses o ffeindio ffordd drwy'r systemau yma, sydd yn gyfnodau o newid. Mae Bronfenner yn disgrifio hwn fel mesosystem rhyngberthnasol gyda chryfder ac ansawdd perthynas ym mhob sefyllfa yn dylanwadu ar ddatblygiad plentyn wrth iddo addasu i newid.

Dylid ystyried cyfnod pontio fel proses deuluol barhaus yn hytrach nag un digwyddiad gan gynnwys y plant, ymarferydd proffesiynol a'r rhieni yn y broses. Yn y cartref mae plentyn yn teimlo'n garterfol i gyfathrebu, a dylai hwn fod yr un peth yn yr ysgol. Er mwyn sicrhau hyn mae'r ymarferydd proffesiynol, fel y prif gyswllt o oedolyn, yn datblygu polisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod plentyn yn cael ei gefnogi a'i bod yn llyfn i bawb. Er enghraifft:

- gwerthuso cyfathrebu a gohebiaeth gyda rhieni newydd i sicrhau bod gwybodaeth yn glir ac yn groesawgar;
- cynnig pecynnau croeso i rieni yn cynnwys lluniau o'r staff a'i darpariaeth a beth sydd gan yr ysgol i gynnig i eu plant;
- gofyn i rieni ac i phlant ddod i mewn i'r ysgol am sesiynau i fel ei bod yn cyfarwyddo â'r amgylchedd ysgol;
- gofyn i'r reini am wybodaeth am eiuplant fel bod modd paratoi rbyn iddynt gyrraedd eich dosbarth;
- annog plentyn i ddod â rhywbeth o adref i'r ysgol fel ei bod yn teimlo'n mwy gartrefol;
- ymateb yn sensitif i ofidion rhieni fel eu bod yn gwybod bod ei plant mewn gofal person sy'n gofalu amdanynt.

(Croner-i, 2022)

Mae cyfrifoldeb gan yr ymarferydd proffesiynol i wneud i'r rhieni a'u plant i beidio teimlo'n ofidus. Mae angen sicrhau cynllun pontio a datblygiad addas a rhannu'r cynllun hyn â'r rhieni fel eu bod yn teimlo'n rhan o broses datblygu eu plant.

Rhieni plant yw'r hyrwyddwyr mwyaf yn eu bywydau yn ystod eu datblygiad a'u dysgu. Mae rôl rhieni yn hanfodol yn natblygiad plentyn oherwydd maent yn cael argraff ar eu plant (Early Education on behalf of the Early Years Coalition, 2020). Yn ôl damcaniaeth dysgu cymdeithasol Albert Bandura (1977) mae pobl yn dysgu o'r amgylchedd o'u hamgylch drwy arsylwi model i ymddygiad, agwedd ac ymatebau emosiynol eraill. Mae'r theori yn rhoi perspectif ar faint o effaith mae rhieni yn cael ar eu plant gan fod y plant yn eu cwmni nhw'n gyson yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

Mae adeiladu perthnasoedd rhwng rhieni ac ymarferydd proffesiynol yn bwysig wrth sicrhau cyfnod pontio positif ac effeithiol. Mae angen i ymarferydd proffesiynol geisio gwneud i'r plentyn deimlo mor gartrefol a phosib yn ysgol fel eu bod yn medru rhannu gofidion, yn debyg i berthynas plant gyda'u rhieni. Mae perthynas positif ac agored rhwng rhieni ac ymarferydd proffesiynol yn bwysig fel bod pawb yn gallu bod yn agored â'u gilydd a rhannu unrhyw ofidion. Fel cyfathrebwr mae'n bwysig i greu perthynas gyda'r plentyn neu riant neu barter arall er mwyn sicrhau bod eich syniadau chi yn cael eu

rhannu a chlywed gan eraill. Nododd Vygotsky (1986) bod plant yn gallu datblygu eu hiaith drwy arsylwi a rhyngweithio â'u grwp diwyllianol. "We become ourselves through others", meddai a hyn yn dangos bod rôl yr oedolyn yn bwysig i ddatblygiad plentyn oherwydd maent yn arsylwi sgysiau rhyngbersonol, eu hefelychu a dysgu wrthynt (Rose, 2012, p. 34-39). Mae ymddwyn gydag integriti a pharch a thegwch yn bwysig i sicrhau bod plant yn setlo yn ystod eu cyfnodau pontio a gellir gwneud hyn drwy helpu'r plant i deimlo mor gartrefol a phosib drwy fuddsoddi amser i siarad gyda nhw a'u helpu i fod yn agored.

4. PARTNERIAETHAU

Mae gwahanol fathau o bartneriaethau yn cefnogi ymarferydd proffesiynol i sicrhau pontio llyfn. Mae partneriaethu allweddol yn cynnwys:

- plant
- rhieni a theuluoedd
- gweithwyr proffesiynol eraill a chfundrefnau cefnogol
- tim amlddisgyblaethol a rhanddeiliaid eraill

Mae sefyllfa pontio yn newid mawr i blant ac mae angen paratoi' fel eu bod yn barod i wario llai o amser â'u rhieni a mwy yn yr ysgol. Mae partneriaeth a pherthynas positif rhwng ymarferydd a phlentyn yn sicrhau cyfnod pontio llyfn. Mae'n bwysig i baratoi'r plentyn drwy weithgareddau megis:

- cynnwys barn y plentyn drwy ofyn cwestiynau am y gefnogaeth hoffent dderbyn
- annog plant i siarad am beth maent yn edrych ymlaen i wneud a beth yw eu pryderon (drwy greu rhestr)
- gwahodd plentyn i sesiwn flasau fel y gall gyfarwyddo â'i amgylchedd newydd
- siarad yn agored â'r plentyn a'i baratoi'n feddyliol i adael yr amgylchedd presenol a symud i'w amgylchedd newydd.
- esbonio'r sefyllfa i'r plentyn fel ei bod yn cael gwell ddealltwriaeth o beth sy'n digwydd (Surrey Local Offer 2023)

Mae fframwaith y Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar (EYFS) yn Lloegr yn nodi bod partneriaeth yn cynnwys 'rhieni, teuluoedd ac ymarferwyr' yn cydweithio 'er budd y plant'. Mae hefyd yn nodi, er mwyn i bartneriaeth weithio, fod angen ei seilio ar ymddiriedaeth, tryloywder a chyfrifoldeb (Department for Education 2023). Yn y ddogfen Development Matters 2020, sydd yn ganllaw ar gyfer cyfnod blynyddoedd cynnar, mae adran sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd partneriaeth rhwng ymarferydd proffesiynol, rhieni a theuluoedd. Mae'n nodi pwysigrwydd partneriaethau parchus er mwyn gosod seiliau i blant prifio yn eu blynyddoedd cynnar. Mae hwn yn cynnwys:

- gwrando ar rieni a rhoi gwybodaeth clir iddynt am ddatblygiad eu plentyn;
- pwysigrwydd cymorth mae rhieni yn eu darparu adref yn cael effaith mawr ar eu dysgu;
- adnabod y sefyllfa adref, er enghraifft diffyg cefnogaeth, er mwyn cynnig help ychwanegol i'r rheiny sydd eu angen fwyaf;
- annog rhieni i siarad, chwarae ac i ddarllen a'u plant (Department for Education 2020).

Mae'r uchod yn cynorthwyo i: fagu ymddiriedaeth; gael rhieni yn rhan o ddatblygiad plentyn a deall datblygiad y plentyn yn yr ysgol a thu allan i'r cartref; rannu disgwyliad fel bod pawb yn deall beth sydd i ddisgwyl o'r plentyn ac i gadw'r rhieni'n ymwybodol o ddatblygiad y plentyn. Yn fy ysgol i, er enghraifft, rydym yn cadw dyddiaduron dyddiol, cynnal nosweithau rhieni ac yn cynnal boreau coffi er mwyn i'r ymarferydd proffesiynol gadw mewn cyswllt gyda rhieni a theuluoedd.

Mae gweithio'n effeithiol gyda gweithwyr proffesiynwyr eraill, tu fewn a tu allan i'r amgylchedd gwaith, hefyd yn allweddol i ddarparu gwasanaeth dda i rieni, teuluoedd a'u plant. Mae'n cefnogi datblygiad unigol y plant a gofal parhaus y plant. Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn yn buddio'r ymarferydd hefyd. Mae'n rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol yn y gwaith, gyda materion tu allan i'r maes addysg ac ysgol ac mae'n helpu cadw perthnasoedd rhynbersonol fel bod ymarferydd yn gallu ymddiried mewn pobl eraill ar gyfer help. Gall gweithwyr proffesiynol eraill gynnwys:

- cydlynwyr anghenion addysgol arbennig
- ymgynghorwyr blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol
- ymwelwyr iechyd
- gweithwyr cymdeithasol
- therapyddion iaith a lleferydd
- gweithwyr ieuenctid
- a gweithwyr canolfan plant (Professional Association for Childcare and Early years 2017).

Yn ôl PACEY (Professional Association for Childcare and Early Years), mae gweithio mewn partneriaeth â'r gweithwyr proffesiynol eraill yma yn hynod bwysig er mwyn sicrhau bod plant mewn cyfnod pontio yn gallu cyrraedd eu gwir botensial a chael y gefnogaeth sydd eu hangen.

Mae rhanddeiliaid eraill y mae angen cydweithio gyda nhw fel partneriaethau addysg yn gallu cynnwys aelodau'r gymuned o'ch cwmpas. Yn fy ysgol i mae hwn yn cynnwys y llywodraethwyr, sydd yn bobl leol gydag arbenigeddau arbennig megis dysgu anghenion arbennig neu wneud ceisidau grant sydd yn cefnogi giath yr ysgol. Mae hefyd yn cynnwys y Capel Lleol sydd yn rhoi eu hadeilad am ddim i ni ar gyfer cyngerddau, neu rieni sydd yn cefnogi gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol drwy godi arian ar gyfer offer ar gyfer plant, neu cefnogi sesiynau un wrth un mewn dosbarth ar gyfer gwella darllen, neu ddod ar dripiâu fel oedolion ychwanegol i'r tîm staff.

5. YMYRIADAU

Mae ymyriadau yn ddull o osgoi problemau neu eu taclo yn syth cyn iddynt waethygu. Mae'n ddull bwysig o ddatblygu sgiliau plentyn i'w paratoi am fywyd oedolyn. Mae ymyriadau blynyddoedd cynnar yn cynnwys cefnogaeth i rieni sy'n agored i niwed a rhaglenni i wella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n debygol o droseddu. Mae ymyriadau yn fwyaf effeithiol os yn cael eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd cynnar (Early Intervention Foundation, 2023). Gall strategaethau ymyraeth gynnwys:

- gwahodd blentyn i ddod i sesiynau blasu rhai wythnosau cyn iddo ddechrau yn y dosbarth fel bod y dosbarth yn teimlo llai dieithr iddo pan mae'n dechrau.
- sicrhau bod y plentyn yn datblygu sgiliau gofalu am ei hun yn annibynol fel nad yw'n teimlo'n ofidus mewn amgylchedd gwahanol.
- chwarae rôl profiadau fel gwisgo lan yn ei ddillad ysgol a chwarae yn ystod amseroedd chwarae a cinio prysur.
- ffocysu ar sgiliau craidd, megis darllen am bleser, ymwybyddiaeth ffonics cynnar sy'n datblygu sgiliau sylfaenol i ddysgu gydol oes.
- adnabod problemau fydd angen ymyraeth yn gynnar ac i greu cynllun a fydd yn buddio'r plentyn dros gyfnod hir

(Patel, 2023)

Yn ôl yr 'Early Intervention Foundation' mae tystiolaeth yn dangos gall ymyraeth cynnar wella canlyniadau i blant a theuluoedd drwy dargedu'r amgylchiadau sy'n rhwystro datblygiad y plentyn (Early Intervention Foundation 2023). Yn fy ysgol i rwy'n tiwtora disgyblion un wrth un tu allan i'r dosbarth gyda chanlyniadau da o ran ymddygiad a chyrhaeddiad a lles plentyn, mae'r ysgol yn mentora cyfoedion a hwn yn creu perthnasoedd iach, ac mae gofal am iechedd meddwl yn ystod pontio rhwng meithrin a derbyn drwy bwsyleisio dysgu drwy chwarae.

6. CANLYNIADAU ARFAETHEDIG

Mae'r bethynas mae ymarferydd proffesiynol yn adeiladu gyda phlentyn yn ystod cyfnod pontio yn allweddol i ddatblygiad a dyfodol plentyn. Gall ymarferydd proffesiynol adnabod cyfnod pontio llwyddianus drwy weld sut mae plentyn yn ymateb i'r diwrnod cyntaf mewn dosbarth derbyn. Pan mae plentyn yn dechrau, dylai fod perthynas positif rhyngddo â'r ymarferydd proffesiynol a hynny o ganlyniad i'r sesiynau blasu a dderbynon nhw a chysylltiadau'r ymarferydd gyda phartneriaid allweddol fel athrawon meithrin, rhieni a theulu ayb. Dylai plentyn deimlo'n gyfforddus yn ei amgylchedd newydd ac ymddiried yn yr ymarferydd proffesiynol. Yn amlwg ni fydd pob plentyn yn setlo mor dda a'u gilydd felly mae'n bwysig cefnogi'r plant sy'n cael trafferth drwy drafod strategaethau â'r rhieni er enghraifft, gadael rhiant i aros â'i blentyn am gyfnod yn ystod y didwrnod. Wrth liwio cyfnod pontio llyfn, bydd ymarferydd proffesiynol yn croesawu plant sy'n barod i ddysgu oherwydd eu bod yn adnabod eu bod mewn amgylchedd sydd yn eu galluogi'i gyraedd eu gwir botensial. Bydd plant yn setlo yn dda, yn chwarae gyda'i gilydd, yn ennyn gwell ddealltwriaeth o'u hunain, deall diwylliant yr ysgol, magu hunanhyder a hyder yn yr ymarferydd proffesiynol, a'u lles yn cael eu cwrdd. Yn ol 'Teach Early Years' mae'n hynod bwysig bod ymarferydd yn buddsoddi amser i sicrhau pontio llyfn gan ei fod yn buddio pawb (Ephgrave, 2013).

8. CRYNHOI THEMÂU ALLWEDDOL

Yn ôl fy ymchwiliad mae'n dod i'r amlwg bod y perthynas mae ymarferydd proffesiynol yn adeiladu â phlentyn yn hanfodol i'w ddatblygiad. I sicrhau cyfnod pontio llyfn o'r meithrin i'r derbyn mae'n bwysig debyddio strategaethau perthnasol, ee paratoi o flaen llaw i groesawu plentyn, sicrhau eich bod gennych ateb i holl anghenion y plant, datblygu partneriaethau rhwng gweithwyr proffesiynol eraill, rhieni a theuluoedd. Mae cefnogi plentyn gydag anghenion arbennig, megis heriau yn y cartref, neu anghenion ychwanegol drwy ymyriadau perthnasol neu gydweithio gyda phartneriaid arbenigol neu gefnogol yn bwysig fel bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel pan yn datblygu perthynas â ymarferydd proffesiynol yn y dyfodol. Yn ol damcaniaethwyr megis Vygotsky, Froebel a Piaget mae plant ifanc yn dysgu llawer drwy chwarae felly mae'n hynod bwysig rhoi cyfleodd i blant a'u caniatáu i ddysgu drwy chwarae a dysgu drwy ddulliau sy'n gartreol iddynt. Fel ymarferydd proffesiynol mae'n bwysig annog plentyn i fynegi'i hun, fel hyn bydd gan plentyn gwell ddealltwriaeth o'i hun a'r amgylchedd o'i gwmpas. Byddai dilyn y camau yma yn sicrhau pontio llyfn ac yn gwneud i'r plentyn a'i deulu deimlo'n gyfforddus wrth weld cyfnod o newid.

Mae'r llawlyfr yma yn cynnig cyngor ymarferol ar sut i bontio o'r cyfnod derbyn i'r cyfnod meithrin drwy awgrymu ymyriadau a strategaethau sy'n effeithio'n bositif ar brofiadau plant a thrwy hyn yn sicrhau y profiadau a chanlyniadau gorau. Fe welwch fod buddion sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus yn ddibendraw oherwydd bod plentyn yn magu emosiynau positif, balchder, cyffro, hyder ac hapusrwydd, yn setlo'n gyflym ac yn dysgu a datblygu o'r diwrnod cyntaf gydag ymarferwr proffesiynol sy'n gyfarwydd iddynt (Ephgrave, 2013). Mae hwn yn rhoi sail cadarn yn addysgiadol ac i lesiant emosiynol plant.

Reference list

‘The hierarchy of needs empirical examination of Maslow’s theory and lessons for development’, *World Development*, Volume 165,(2023) p. 106-185, ISSN 0305-750X. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/science/article/pii/S0305750X23000037?via%3Dihub#s0095>

Anjali Patel. (2023) *Teach Early Years*. ‘*Transitions in early years – Ideas for supporting children and families*’. Ar gael: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/supporting-transitions-in-the-early-years#:~:text=Environments%20and%20routines%20that%20encourage,of%20security%20following%20a%20transition>. (Defnyddio 19 Tachwedd 2023)

Croner-i (2022) *Managing transitions in early years provisions*. Ar gael: <https://app.croneri.co.uk/feature-articles/managing-transitions-early-years-provisions#:~:text=Transition%20should%20be%20viewed%20as,make%20smooth%20and%20successful%20transitions>. (Defnyddio Tachwedd 19 2023)

Department for Education (2020) *Development Matters*. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1180056/DfE_Development_Matters_Report_Sep2023.pdf (Defnyddio Tachwedd 25 2023)

Department for Education. (2023) *Statutory framework for the early years foundation stage. Setting the standards for learning, development and care for children from*

birth to five. Ar gael:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1170108/EYFS_framework_from_September_2023.pdf (Defnyddio Tachwedd 25 2023)

Early Education on behalf of the Early Years Coalition (2020) *Transitions*. Ar gael:

<https://birthto5matters.org.uk/transitions/#:~:text=Transitions%20are%20opportunities%20for%20professional%20dialogue%20both%20within%20and%20between,are%20helped%20to%20settle%20happily>. (Defnyddio 17 Tachwedd 2023)

Early Years Intervention Foundation (2023) *What is Early Intervention?* . Ar gael:

<https://www.eif.org.uk/why-it-matters/what-is-early-intervention> (Defnyddio Tachwedd 19 2023)

Ephgrave, Anna (2013). *Transition to Reception*. Ar gael:

<https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/transition-to-reception#:~:text=A%20successful%20transition%20means%20children,confident%20and%20ready%20to%20learn>. (Defnyddio Tachwedd 27 2023)

Foley, Leverett, Foley, Pam, & Leverett, Stephen. (2008). *Connecting with children: Developing working relationships (Working together for children; bk. 1)*. Bristol: Policy.

Mariano Rojas, Alfonso Méndez, Karen Watkins-Fassler,

Moir, Taryn. & Johnson, Jayne (2021) '*Ensuring Quality Transitions From Early Years' Establishments Into Primary Schools: Putting Research Into Practice*', *Frontiers in Psychology*, Vol.12

Parent, S., Lupien, S., Herba, C. M., Dupéré, V., Gunnar, M. R., and Séguin, J. R. (2018). *Children's cortisol response to the transition from preschool to formal schooling: a review*. *Psychoneuroendocrinology* 99, 196–205.

Plateresca/ Getty images (2020) *Maslow's Hierarchy of Needs Explained*. Ar gael:

<https://www.thoughtco.com/maslows-hierarchy-of-needs-4582571> (Defnyddiwyd 18 Tachwedd 2023)

Polisi Chwarae Cyfredol (2002) Ar gael: <https://chwarae.cymru/polisi-chwarae/polisi-presennol/> (Defnyddio 18 Tachwedd 2023)

Pound, L. (2005) *How Children Learn : From Montessori to Vygotsky - Educational Theories and Approaches Made Easy*. Leamington Spa: Andrews UK (Practical Pre-school). Available at: <https://web-s-ebsochost.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzQ2MzU4N19fQU41>

[?sid=920252ea-5c72-4de8-9723-](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG18-Working-with-others.pdf)

[0ffaf36d2604@redis&vid=0&format=EB&lpid=lp_2&rid=0](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG18-Working-with-others.pdf) (Accessed: 18 November 2023).

Professional Association for Childcare and Early Years (2017). *Working with other professionals*. Ar gael: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG18-Working-with-others.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG18-Working-with-others.pdf) (Defnyddio Tachwedd 26 2023)

Rose, Janet (2012) 'The Role of the Adult in Early Years Settings', p. 34-39. Ar gael: <https://r4.vlreader.com/EpubReader?ean=1780335242313#> (Defnyddio 19 Tachwedd 2023)

Support for schools and settings (2022) *Transition in the early years: Guidance for schools and settings*. Ar gael: <https://www.devon.gov.uk/support-schools-settings/inclusion/transition/transition-in-the-early-years/#:~:text=Transition%20in%20the%20early%20years%20is%20a%20significant%20time%20for,year%20into%20key%20stage%201.> (Defnyddio 18 Tachwedd 2023)

Surrey Local Offer (2023) *Supporting your Child during Transition*. Ar gael: <https://www.surreylocaloffer.org.uk/parents-and-carers/education-and-training/supporting-your-child-during-transitions> (Defnyddio Tachwedd 26 2023)

Teach early years (2013) *Transition to Reception*. Ar gael: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/transition-to-reception> (Defnyddio 18 Tachwedd 2023)

Uniplay (2023) *6 benefits of playground marking for children*. Ar gael: <https://www.uni-play.co.uk/6-benefits-of-playground-markings-for-schools/> (Defnyddio Rhagfyr 3 2023)

Urie Bronfenbrenner (1979) *The ecology of human development experiments by nature and design*. Harvard university Press